

Pecyn Recriwtio

Ficer ac Arweinydd Ardal Weinidogaeth
Bro Cwyfan



Esgobaeth
Bangor
The Diocese
of Bangor

Croeso

Fel Esgobion yn esgobaeth Bangor gobeithiwn y bydd y wybodaeth yn y proffil hwn yn ddefnyddiol ac yn ddeniadol. Am ddegawd a mwy rydym wedi canolbwyntio ein holl egni gweinidogol trwy ein Hardaloedd Gweinidogaeth yn argyhoeddedig y gallwn wneud mwy gyda'n gilydd ac yn well, nag y gallwn ar wahân.

Ein gobeithion i bawb sy'n gwasanaethu gyda ni yw bod y cam hwn o ffydd yn arwain at gymunedau eglwysig a disgyblion ffyniannus sy'n ymhyfrydu eu bod yn perthyn i deulu Bangor. Mae'r proffil hwn yn cynnwys elfennau dynol – daearyddiaeth ffisegol, natur y cymunedau a'r eglwysi sy'n eu gwasanaethu, ffactorau iaith a diwylliannol ochr yn ochr â'r cyfleoedd ysbrydol a'r ddeinamieg o fewn yr Ardal Weinidogaeth.

Credwn ei fod yn adlewyrchiad gonest a gobeithiol o'r realiti gan eu bod yn cael eu profi gan y rhai sy'n byw ynddynt. Os byddwch yn dewis teithio gyda ni, gallwn eich sicrhau o'n cefnogaeth gref a'n gweddïau ar gyfer eich dyfodol pe baech yn gweinidogaethu mewn mannau eraill.

Boed i ras a heddych Duw fod gyda chi yn eich dealltwriaeth.



+Andrew Cambrensis
Archesgob Cymru ac Esgob Bangor



+David Enlli
Esgob Enlli ac Esgob Cynorthwyol ym Mangor



**Esgobaeth
Bangor**
The Diocese
of Bangor

Cyflwyniad



Eglwys Cwfan

Rydym yn chwilio am offeiriad i wasanaethu ac **R**arwain yn Ardal Weinidogaeth Bro Cwyfan, Esgobaeth Bangor. Mae Bro Cwyfan yn cynnwys y rhan helaeth o ardal orllewinol Ynys Môn (ac eithrio Caergybi ac Ynys Cybi). Mae ei heglwys yn gwasanaethu pentrefi Rhosneigr a Llanfaelog, y Fali, Llanfachraeth, Bodedern a'r aneddiadau bach cyfagos (poblogaeth tua 8800, cyfrifiad 2021). Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod adeiladau'r eglwys yn cael eu defnyddio mewn patrwm cynaliadwy o fywyd ac addoli: mae dwy eglwys (yn Llanfaelog a'r Fali) wedi'u blaenoriaethu fel canolfannau ar gyfer gwasanaethau wythnosol ar y Sul a digwyddiadau yn ystod yr wythnos; mae tair arall yn cynnal gwasanaethau misol ar y Sul; mae pedwar adeilad ychwanegol yn cael eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau addoli tymhorol a digwyddiadau achlysurol.

Rydym yn chwilio am Arweinydd Ardal Weinidogaeth sydd â chariad at Dduw a phobl sy'n:

- Ymrwymedig i weithio gyda Chyngor yr Ardal Weinidogaeth i gynllunio'n strategol ar gyfer y dyfodol o ran cenhadaeth, eiddo a chyllid.

- Ymroddedig i gydweithio, a fydd yn nodi ac yn datblygu potensial eraill, gan annog galwedigaeth unigol ac ar y cyd ar gyfer datblygu cenhadaeth a gweinidogaeth.
- Gallu, gyda dychymyg a chreadigrwydd, archwilio ymhellach gyda ni ffurfiau newydd o addoli ochr yn ochr â'r hoff ffurfiau traddodiadol o addoli, a ffurfiau newydd o gysylltu ochr yn ochr â ffyrdd o ymgysylltu sydd eisoes wedi'u sefydlu.
- Brwdfrydig ynghylch datblygu ein hymwneud a'r gymdeithas a'r gymuned ar draws grwpiau oedran ac ieithoedd i'n hymgysylltu ni ag anghenion y byd a'r greadigaeth.
- Barod i ymgysylltu'n ddwys â'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae'r swydd yn addas ar gyfer siaradwr Cymraeg neu ddysgwr Cymraeg – fel esgobaeth rydym yn brofiadol o ran rhoi cefnogaeth i glerigwyr i ddysgu a datblygu eu sgiliau Cymraeg.
- Gymwys yn strategol ac yn fugeiliol i arwain amrywiaeth o gymunedau sy'n tyfu.

Eglwys Cwfan

Ein cynnig Cymraeg



Eglwys Cwfan

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog ym mhob agwedd ar waith yr Esgobaeth, gan gynnwys darpariaeth i'r cyhoedd, addolwyr a staff.

- Mae ein hunaniaeth a'r ddelwedd yn gwbl ddwyieithog. Bydd egwyddor o gydraddoldeb bob amser, gyda'r Gymraeg yn ymddangos uwchben neu o flaen y Saesneg.
- Rydym yn ceisio sicrhau bod pob neges yn cael ei rhoi'n ddwyieithog ac ar yr un pryd ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ac rydym hefyd yn ymrwymedig i ddarparu gwefan gwbl ddwyieithog.
- Rydym bob amser yn ymdrechu i annog a chefnogi staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg a staff cefnogi sy'n siarad Cymraeg ac sydd eisiau gwella'u sgiliau iaith.
- Rydym yn annog unigolion i deimlo'n gyfforddus wrth ddefnyddio yr iaith o'u dewis wrth addoli. Yn yr un modd, rydym yn annog unigolion i gysylltu â ni yn yr iaith o'u dewis.
- Rydym yn cynnig y Gymraeg yn rhagweithiol i bawb drwy ddechrau sgysiau yn Gymraeg.
- Drwy groesawu gwesteion a staff o'r tu hwnt i Gymru i Esgobaeth Bangor, byddwn yn eu haddysgu am iaith a diwylliant Cymru.

Dysgu Cymraeg

Rydym yn cynnig cyfle i bawb sy'n ymuno â ni ddysgu Cymraeg neu wella'u Cymraeg. Bydd Ysgogwr y Gymraeg yn gweithio gyda chi i ddatblygu cynllun iaith Gymraeg i'ch galluogi i siarad, ysgrifennu ac – mewn amser – pregethu yn Gymraeg.

Mae yna ddigon o ddysgwyr Cymraeg yn yr esgobaeth sydd wedi dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus ac sydd, erbyn hyn, yn arwain gwasanaethau yn Gymraeg. Dyma rai o'r cyfleoedd:

- Mae ein cwrs blasu 10 awr ar-lein wedi'i gynllunio i roi blas ar y Gymraeg i ddysgwyr o bob lefel.
- Cyrsiau preswyl trochi Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn.
- Cyrsiau Cymraeg wedi'u hariannu.
- Duw a Dysgwyr – ein gwasanaeth misol i ddysgwyr Cymraeg ar gyfer ob lefel.

Cymraeg

Esgobaeth Bangor

Rydym yn gymuned Gristnogol fywiog gyda hanes cyfoethog sy'n dyddio'n ôl i'r bumed ganrif, wedi'i gwreiddio yn nhraddodiadau seintiau Celtaidd cynnar fel Deiniol, Cybi, Seiriol, Tudwen, Madryn, ac eraill. Mae enwau'n heglwysi, pentrefi a threfi yn anfarwoli'r seintiau hyn.

Er bod ein cenhadaeth yn parhau i fod yn gadarn dros fileniwm a hanner, mae ein cyd-destun cyfoes yn cyflwyno cyfleoedd newydd a heriol. Mewn ymateb, rydym wedi croesawu gweledigaeth o ddilyn Iesu gydag egni newydd a dulliau arloesol.

Rydym wedi sefydlu tair egwyddor allweddol, tair blaenoriaeth, tri chynllun, a thri llwyfan newydd i lywio'n taith.

Darllenwch fwy am y rhain ar ein gwefan.

bangor.eglwysyngnghymru.org.uk

Mae ein hymrwymiad yn troi o amgylch tair egwyddor weledigaethol yr ydym yn credu y dylent ddiffinio ein bywyd cymunedol:

- Addoli Duw
- Tyfu'r Eglwys
- Caru'r byd

Rydym yn eich croesawu chi i ymuno â ni yn y genhadaeth drawsnewidiol hon, wrth i ni lywio heriau ein hamser gyda ffydd, ymroddiad, ac ymrwymiad i addoli, twf a chariad.



**Esgobaeth
Bangor**
The Diocese
of Bangor

St Edern



Cyflwyno Bro Cwyfan

Mae Bro Cwyfan, yng nghornel orllewinol Ynys Môn, yn ardal o arfordir trawiadol a chefn gwlad bryniog hardd. Mae ganddi gysylltiadau trafnidiaeth ardderchog ac mae rhwydwaith y brif reilffordd o Gaergybi i Lundain yn rhedeg trwyddi (a gorsafoedd yn y Fali a Thŷ Croes o fewn Bro Cwyfan). Mae ffordd ddeuol fodern yr A55 yn ei chroesi, a hen gefnffordd yr A5 yw'r brif ffordd drwy sawl un o'i chymunedau. Mae ei ardaloedd arfordirol ymhlith y cyrchfannau twristaidd mwyaf poblogaidd ar Ynys Môn, Mae gan Rosneigr barciau carafanau, meysydd gwersylla, cartrefi gwyliau a theithwyr undydd, sy'n creu tymor yr haf prysur. Gellir mwynhau chwaraeon dŵr, yn ogystal ag amrywiaeth eang o weithgareddau hamdden a ffitrwydd ar draws yr ardal gyfan. Mae yna drac rasio modur yn Nhŷ Croes. Yn yr un modd, mae pleser heddwch a bod ar eich pen eich hun yng nghefn gwlad ar gael yn hwylus. Mae'r ardal yn hafan i naturiaethwyr a gwylwyr adar.

Yn ogystal â'i gweithgareddau twristiaeth, mae'r ardal yn gartref i amrywiaeth o fusnesau masnachol, diwydiant ysgafn ac amaethyddol ar raddfa fach, ac mae ganddi o fewn ei ffiniau, ganolfan awyr filwrol RAF Valley (sydd â'i chaplaniaeth y Lluoedd ei hun).

Mae demograffig eang o boblogaeth. Mae sawl ysgol gynradd, ac mae'r ysgol uwchradd y maent

yn trosglwyddo iddi hefyd yn Ardal y Weinyddiaeth, ym Modedern (dim ond un ysgol gynradd sy'n trosglwyddo i Gaergybi).

Y Fali (2326), Llanfaelog gan gynnwys Rhosneigr (1498) a Bodedern (1193) yw canolfannau'r boblogaeth, gyda phentrefi llai Bryngwran (900) ar yr A5 a Llanfachraeth (573) a chymunedau eraill (598) yng ngogledd-orllewin yr ardal. Mae canolbwynt arall o boblogaeth yng nghyffiniau RAF Fali (1735).

Mae'r Fali yn bentref gweithiol prysur gydag amrywiaeth o siopau a busnesau lleol, siop nwyddau haearn helaeth gyda chanolfan arddio, dau westy/tafarn, dwy orsaf tanwydd a sawl siop fwyd yn amrywio o siopau cludfwd i fwytai cain. Mae'r pentref yn tyfu wrth i dai newydd gael eu hadeiladu. Mae yna barc manwerthu mawr ychydig funudau i ffwrdd mewn car ar Gyffordd 2 yr A55. Mae Rhosneigr yn bentref prysur yn yr haf, er bod busnesau wedi'u lleoli yno drwy gydol y flwyddyn, ac mae Bodedern yn bentref traddodiadol Cymreig wedi'i ehangu gan dai newydd, gydag ysgol gynradd ac uwchradd a rhai siopau lleol. Mae'r rhain ac aneddiadau llai'r ardal yn cynnig bywyd yn y gymuned gyda llawer o gyfleoedd ar gyfer gweinidogaeth a chenhadaeth.



Eglwysi Bro Cwyfan

Mae naw eglwys a hefyd mynwentydd eglwysi segur yn Ardal y Weinidogaeth. Maent yn gartref i gymunedau cynulleidfaol gwahanol yn y Fali, Llanfaelog, Bodedern, Llanfachraeth, Bryngwran, a Llantrisant, Llanbabo a Llangwyfan. Maent yn gweithredu patrwm cynaliadwy o wasanaethau, gyda dwy gynulleidfa wythnosol (Sain Maelog, Llanfaelog a Sant Mihangel, Y Fali), a thair cynulleidfa fisol, a phumed gwasanaeth dydd Sul unedig sy'n teithio o amgylch Ardal y Weinidogaeth. Mae'r gwasanaethau yn ddwyieithog.

Aelod o staff clerigol presennol Ardal y Weinyddiaeth yw Arweinydd cyflogedig Ardal y Weinyddiaeth. Mae'r swydd hon yn cael ei chefnogi gan glerigion sydd wedi ymddeol a Darllenwyr. Mae gwirfoddolwyr gweithredol ym mhob eglwys ochr yn ochr â'r wardeiniaid ar gyfer galluogi addoli ddydd Sul a gweithgareddau yn ystod yr wythnos.

Mae'r Ardal Weinidogaeth yn cael ei gwasanaethu a'i llywodraethu gan Gyngor yr Ardal Weinidogaeth ac mae pob eglwys wedi'i chynrychioli arno. Mae hyn yn datblygu hunaniaeth gydlynol ar gyfer yr Ardal Weinidogaeth wrth gynnal unigrwydd pob un o gymunedau'r eglwysi unigol.

1 Eglwys Sant Cwyfan ('yr eglwys yn y môr')

Mae'r adeilad eiconig yr Eglwys hon (o'r ddeuddegfed ganrif, wedi'i ailadeiladu'n ddiweddarach, rhestredig Gradd I) yn sefyll ar bentir, oherwydd erydu, mae ond yn bosibl ei gyrraedd pan fydd llanw is. Mae'n denu ymwelwyr o bob cwr o'r byd ac mae'n un o olygfeydd a safleoedd mwyaf poblogaidd Ynys Môn. Mae ar Lwybr Arfordir Cymru. Mae'r eglwys yn cael ei defnyddio yn achlysurol ar gyfer gwasanaethau ar y Sul (tri gwasanaeth yn ystod yr haf); mae galw mawr amdani ar gyfer priodasau yn yr haf ac ar gyfer rhai bedyddiadau. Mae'n lleoliad atmosfferig

ar gyfer cyngherddau ac yn boblogaidd gydag artistiaid a ffotograffwyr. Mae tîm o leygwyr cadarn yn gofalu amdani ac mae cylch rheolaidd o waith allanol yn ei chynnal a'i chadw, gan ei bod wedi'i lleoli mewn amodau arfordirol heriol.

2 Eglwys y Santes Fair, Llangwyfan

Adeiladwyd yr eglwys hon ym 1870 i roi lleoliad mwy cyfleus ar gyfer addoli wrth i'r defnydd o eglwys hynafol Sant Cwyfan ddirwyn i ben. Wedi'i lleoli mewn caeau, cryn bellter o Dŷ Croes, fe'i gelwir yn Eglwys y Ffermwyr a chaiff ei defnyddio yn achlysurol, gyda gwasanaeth adeg y Cynhaeaf. Mae'r eglwys mewn cyflwr rhesymol ac mae mân waith adfer yn cael ei wneud iddi.

3 Eglwys Sant Maelog, Llanfaelog

Saif yr eglwys bresennol (canol y 19eg ganrif, rhestredig Gradd II) ym mhentref Llanfaelog, ac mae'n ganolbwynt i lawer o fywyd yr eglwys ar gyfer rhan ddaearyddol isaf Ardal y Weinidogaeth. Cafodd ei haildrefnu 25 mlynedd yn ôl ac mae'n fan addoli cynnes, golau sy'n addas at ddibenion cymunedol eraill fel cyngherddau a chyfarfodydd. Mae gwres tanlawr, seddi addasadwy cyfforddus, cegin a thoiledau, ac i fyny'r grisiau mae man cyfarfod oriel sy'n edrych dros gorff yr eglwys islaw. Mae celf gyfoes mewn pren a gwydr i'w weld yn yr eglwys, ac mae ffenestr yn arddull cyn-Raffelaidd gan Burnes-Jones, yn ôl y sôn.

Mae'r fynwent yn cael ei chynnal yn ofalus yn ôl ein hegwyddor amgylcheddol, ac yn ddiweddar derbyniodd yr eglwys Wobr Arian Eglwysi Eco.

Yr eglwys yw'r eglwys ardal ar gyfer cyrchfan boblogaidd Rhosneigr gerllaw, ac weithiau cynhelir gwasanaethau yno ar y traeth ac mewn neuadd gymunedol.



Eglwys Sant Maelog, Llanfaelog tu mewn



Rhosneigr



Eglwys Sant Maelog

Cynhelir gwasanaethau addoli yn Eglwys Sant Maelog bob bore Sul (ac eithrio ar bumed dydd Sul y mis), naill ai'r Cymun Sanctaidd neu'r Foreol Weddi, gyda chynulleidfa o rhwng 20 a 30. Cynhelir Ewcharist rheolaidd fore Mercher hefyd. Yn ystod y Grawys, ar ôl y gwasanaeth canol wythnos hwn mae cinio ar y cyd, sy'n agored i bawb. Mae cymrodoriaeth ar ôl gwasanaethau yn rhan bwysig o fywyd yr eglwys yma, yn rheolaidd gyda lluniaeth ac weithiau gyda chinio 'dod a rhannu'. Dangosodd Diwrnod Gweledigaeth diweddar fod y gynulleidfa yn agored i newid ac arloesi ac i archwilio dulliau newydd o addoli. Mae cangen Undeb y Mamau wedi'i lleoli yma.



Eglwys Sant Mihangel, Y Fali

4 Eglwys Sant Mihangel, Y Fali

Mae eglwys Sant Mihangel yn sefyll wrth ochr hen gefnffordd yr A5 yng nghanol y Fali, y pentref prysur sydd wedi'i leoli ychydig cyn i Arglawdd Stanley fynd â'r A5 oddi ar Ynys Môn i Gaergybi. Yn dyddio o'r 1880au, mae estyniad modern sy'n cydweddu â'r hen eglwys ac sy'n darparu man cyfarfod, cegin fach a thoiled, gan ei wneud yn lle hyblyg ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau, a chafodd ei defnyddio'n gymunedol i raddau, yn y gorffennol, yn ogystal â fel eglwys. Roedd Ysgol Sul gweithredol yma cyn COVID. Mae perthynas dda â'r ysgol gynradd leol sy'n ymweld â'r eglwys yn rheolaidd. Derbyniodd yr eglwys Wobr Efydd Eglwysi Eco yn ddiweddar.

Mae gwasanaethau addoli yn eglwys Sant Mihangel yn digwydd bob bore Sul, naill ai'r Cymun Sanctaidd neu'r Foreol Weddi, unwaith eto gyda'r

Diwrnod Gweledigaeth diweddar yn tynnu sylw at barodrwydd i addasu ffurfiau o addoliad. Fel arfer mae rhwng 17 a 22 yn bresennol yn rheolaidd. Mae codi arian ar gyfer nifer o elusennau lleol a chenedlaethol yn rhan o fywyd yr eglwys yma, gyda chwisiau a chyngherddau yn cael eu trefnu.

Mae gan yr eglwys neuadd gerllaw ar ystad dai gyfagos. Mae'n cael ei chynnal gan bwyllgor bach, ac mae Ambiwilians Sant Ioan a grwpiau Brownis ac Enfys lleol. Mae'r Rheithordy, lle mae Arweinydd yr Ardal Weinidogaeth yn byw, y drws nesaf i eglwys Sant Mihangel, ac mae'n rhoi deiliad y swydd yng nghanol y pentref ac mewn man cyfleus yn ddaeryddol ar gyfer cyrraedd Ardal y Weinidogaeth yn ei chyfanrwydd.



6 Eglwys y Drindod Sanctaidd, Bryngwran

Wedi'i lleoli ym mhentref Bryngwran ar gefnffordd yr A5 ar ochr ddwyreiniol Bro Cwyfan, mae gan yr eglwys Fictoraidd hon wasanaethau addoli a gynhelir ddydd Sul cyntaf y mis. Mae ganddi neuadd yr eglwys, sy'n cynnig hyblygrwydd ar gyfer digwyddiadau a lle ar gyfer ymgynnull yn gymunedol.

7 Eglwys Sant Machraeth, Llanfachraeth

Mae'r eglwys hon 'wedi cael ei hailadeiladu'n llwyr yn yr oes fodern' yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n sefyll wrth ochr y ffordd ym mhen gogleddol y pentref. Mae gwasanaethau addoli'n digwydd yma, ar ffurf draddodiadol, ar ail Sul y mis.



SS Afran ac Ieuan
Llantrisant Cyfeillion
Eglwys Ddwyfyll

8 Seintiau Afran, Ieuan a Sanan (Eglwys Newydd), Llantrisant

Cymerodd yr eglwys Fictoraidd newydd hon le'r hen eglwys yn 1899 (nawr dan ofal Cyfeillion Eglwys Ddwyfyll). Erbyn hyn, mae gwasanaethau addoli yn cael eu cynnal yma ar sail gwylliau, bedair gwaith y flwyddyn ar brynawn dydd Sul.

9 Eglwys Sant Pabo, Llanbabo

Mae'r adeilad hwn (canoloesol, rhestredig Gradd II*) yn cael ei ystyried yn 'oroeswr pwysig' gan nad yw'r ailadeiladu na'r adfer sydd wedi digwydd i lawer o eglwys Ynys Môn wedi'i gyffwrdd i raddau helaeth. Mae'n sefyll ar ei phen ei hun wrth ymyl isffordd ger cronfa ddŵr Llyn Alaw. Ar hyn o bryd dim ond un gwasanaeth y flwyddyn sy'n cael ei gynnal yma, adeg rhoi diolch am y Cynhaeaf, er yn ddiweddar maent wedi eu cynnal o bryd i'w gilydd.

Y Rheithordy

Mae'r tŷ yn eiddo traddodiadol pedair ystafell wely ac mae llawer iawn o waith wedi'i wneud iddo. Mae estyniad cyfoes deniadol iawn arno sy'n ymestyn ar draws cefn y tŷ cyfan, gan roi cegin/ystafell fwyta agored, ac astudfa fodern i'r ochr. Mae ganddo ardd sydd wedi'i chynnal yn daclus, a golygfeydd hyfryd o'r cefn ar draws cefn gwlad. Mae wedi'i leoli'n dda ar gyfer mynediad i'r holl Ardal Weinyddiaeth, dim ond munudau o'r A55, ac yn gyfleus ar gyfer yr orsaf reilffordd leol. Mae preswylwyr diweddar wedi bod yn hapus iawn yma.

Posibiliadau a Chyfleoedd

Mae adeiladau'r eglwys yn gyffredinol mewn cyflwr da ac mae'r cyllid yn weddol gadarn. Mae aelodau cynulleidfaoel mewn sawl eglwys yn chwilio am ysbrydoliaeth ac arweinyddiaeth i ddatblygu eu cenhadaeth. Daeth y Diwrnod Gweledigaeth sydd eisoes wedi'i grybwyll â'r parodrwydd i ehangu arddulliau addoli ac i roi cynnig ar ffurfiau newydd o gyfarfod. Mae profiad yr Eglwys Friciau ym Modedern yn dangos potensial dim ond un dull. Mae gan weinidogaeth sy'n gysylltiedig ag ysgolion botensial mawr, fel bod gan ymgysylltu dychmygus â thwristiaeth. Bydd cysylltu â bywyd traddodiadol yn y pentrefi yn cael ei groesawu'n wresog, a bydd tyfu hyder yr eglwys fel bod ganddynt fywyd i'w gynnig mewn byd sy'n newid yn dwyn ffrwyth. Gallai ymgysylltu â threftadaeth ddiwylliannol gyfoethog yr ynys fod un cyfeiriad ar gyfer cenhadaeth, un arall fyddai cysylltu ag anghenion y byd naturiol yn yr ardal hon, sydd, yn ei harddwch yn ennyn ymatebion pwerus gan y rhai sy'n ymweld a'r rhai sy'n byw yma. Mae awydd dwfn yn yr eglwys i waith sy'n canolbwyntio ar y gymuned ffynnu, ac maent yn gweddio am y person priodol i ddod yma i ymateb i alwad Duw.

Yr hyn y mae ein pobl yn ei ddweud

'Mae cael gwahoddiad i wasanaeth yn Eglwys Sant Maelog flwyddyn yn ôl wedi newid fy mywyd'

(aelod newydd o'r gynulleidfa).

'Cawsom groeso mor gynnes ... diolch'

(ymwelydd â gwasanaeth)

'Rwy'n teimlo'n gartrefol yma'

(ymwelydd Hindwaidd yn mynychu gwasanaeth yn Eglwys Sant Cwyfan)

'Rydyn ni'n teimlo ein bod yn cael ein cefnogi wrth i'n priodas agosáu'; 'Mae hi bob amser yn hyfryd dod i'r eglwys, mae pawb mor groesawgar'

(cyplau a fydd yn priodi yn ddiweddarach yn y flwyddyn)

'Rydyn ni'n chwilio am rywun a fydd yn ein helpu i dyfu'n genhadol, gan fynd ar drywydd presenoldeb Iesu yn yr Ardal Weinidogaeth'

(aelod o'r eglwys)

Diddordeb?

Mae Ardal Weinidogaeth Bro Cwyfan yn cynnig cyfleoedd cyffrous ar gyfer y dyfodol. Mae hon yn ardal ddeniadol i fyw, gweithio a gweinidogaethu ynddi, gyda chysylltiadau trafndiaeth da. Mae'r Ardal Weinidogaeth a'i heglwys yn awyddus i ddatblygu eu bywyd mewn ffyrdd a fydd yn cryfhau cefnogaeth i naill i'r llall ac yn galluogi mwy o genhadaeth allanol mewn tystiolaeth a gwasanaeth. Mae cyfleoedd amryfal i ymgysylltu â theuluoedd ac ysgolion ar draws yr Ardal Weinyddiaeth. Mae'r newidiadau deinamig a ddaeth gyda datblygiadau cymdeithasol ac economaidd a datblygiad parhaus twristiaeth ar draws yr ardal yn gwahodd ffurfiau dychmygus o addoli ac ymgysylltu.

Y Broses ymgeisio

Anfonwch eich CV ynghyd â llythyr cais drwy e-bost at yr Archddiacon John Harvey
johnharvey@churchinwales.org.uk

Dylai eich CV amlinellu eich cymwysterau addysg a hyfforddiant a'ch hanes cyflogaeth.

Ni ddylai eich llythyr cais, fod yn fwy na dwy ochr o A4 a dylai ddisgrifio'r hyn sy'n eich denu chi i'r rôl a chysylltu eich sgiliau a'ch profiad â manyleb y person.

Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd am gyfweiliad.

Am fwy o wybodaeth a sgwrs anffurfiol

Yr Esgob David Morris

07930 283833

davidmorris@churchinwales.org.uk

Yr Archddiacon John Harvey

07534 549682

johnharvey@churchinwales.org.uk

Eglwys Sant Edern, Bodedern

5 Eglwys Sant Edern, Bodedern

Mae Eglwys Sant Edern (canoloesol gydag ychwanegiadau ac addasiadau diweddarach, rhestredig gradd II*) wedi'i lleoli ym mhentref Bodedern, yn rhan ganolog Bro Cwyfan. Mae gan y pentref ysgol gynradd a hefyd yr ysgol uwchradd ar gyfer y dalgylch. Mae yna berthynas dda â'r ysgolion, ac mae rhai gwasanaethau ysgol tymhorol yn digwydd yn yr eglwys.

Mae gwasanaethau addoli yn digwydd yn Eglwys Sant Edern unwaith y mis, ar y pedwerydd dydd Sul. Menter bwysig yn ddiweddar oedd trefnu Eglwys Friciau (Lego) a ddaeth â sawl teulu at ei gilydd ar gyfer chwarae ac addoli yn seiliedig ar straeon.



**Esgobaeth
Bangor**
The Diocese
of Bangor